Dogfen ir Cyhoedd

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2013 (2.00 o'r gloch)

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda adroddiad wedi cael ei farcio "I DDILYN" i Gyngor Sir Ynys Môn a oedd heb gyrraedd erbyn yr amser penodol.

**8** **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd.**– I DDILYN**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **5 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH DROS DRO – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI SYLW I GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN DILYN GOSTYNGIAD YN AELODAETH UN GRŴP** |

1.0 Mae angen i'r Cyngor adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau yn dilyn cael rhybudd bod un aelod wedi rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r Grŵp Llafur.

2.0 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n ymwneud a chydbwysedd gwleidyddol sef:

*"(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

3.0 Mae'r cydbwysedd gwleidyddol ar y Cyngor bellach fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Plaid Cymru Party of Wales | - | 12 |
| Llafur | - | 2 |
| Grŵp Annibynnol | - | 12 |
| Digyswllt | - | 4 |

4.0 Mae'r newid diweddar yn golygu bod y Grŵp Llafur yn colli cyfanswm o 4 sedd yn seiliedig ar gyfanswm nifer y seddau (120) oedd ar gael ym mis Hydref 2013.

5.0 Yn unol â phrotocolau rheolaeth wleidyddol trafodwyd y trefniadau diwygiedig ar gyfer rheolaeth wleidyddol gydag Arweinyddion y Grwpiau.

6.0 Yn unol â chonfensiynau lleol ac i adlewyrchu egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol mae'r matrics sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion am hawl pob grŵp i gyfran o'r seddau.

**7.0 Pwyllgorau Sgriwtini**

7.1 Mae'r matrics yn gostwng hawl y Grŵp Llafur o 2 sedd i 1 sedd yn unig. Fodd bynnag, nodir y byddai gwaharddiad ar y Grŵp Llafur rhag cymryd y sedd oherwydd bod Aelodau o'r Grŵp ar y Pwyllgor Gwaith. Bydd hyn yn golygu na fyddai cyfanswm o 3 sedd ar Bwyllgorau Sgriwtini yn cael eu rhoi i grwpiau a gall y Cyngor os yw'n penderfynu roddir seddi i aelodau digyswllt (mae'r newidiadau wedi eu marcio'n wyrdd).

7.2 Mae grym y Cyngor i ddyrannu seddau i aelodau digyswllt wedi ei gyfyngu i'r seddau hynny nad ydynt yn cael eu llenwi dan y rheolau cydbwysedd gwleidyddol h.y. seddau sydd heb eu dyrannu. Mae seddau a ddyrannwyd i'r Grŵp Llafur, na allant eu llenwi, yn parhau i fod yn seddau sydd wedi eu dyrannu ac felly ni ellir eu rhoi i Aelodau Digyswllt.

7.3 Mae un eithriad sef y gallai'r Cyngor llawn ddyrannu seddau'r Grŵp Llafur i Aelodau eraill, ond dim ond ar yr amod nad oes unrhyw Aelod yn pleidleisio yn y dyraniad hwnnw.

**8.0 Pwyllgorau Lled-Farnwrol**

8.1 Mae'r matrics yn dwyn sylw at ostyngiad o 2 sedd i'r Grŵp Llafur yn seiliedig ar hawliau ffracsiynol. Mae sgôp i'r Cyngor wneud y gostyngiad hwn trwy adolygu cynrychiolaeth y Grŵp Llafur ar y Pwyllgorau isod (marciau melyn):

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Penodi
- Pwyllgor Ymchwilio
- Pwyllgor Apeliadau

*8.2* Mewn perthynas â'r Pwyllgor Archwilio gwaherddid y Grŵp Llafur rhag cymryd sedd oherwydd bod Aelodau'r Grŵp ar y Pwyllgor Gwaith.

8.3 Mae Arweinyddion y Grwpiau yn argymell na fyddai'r Grwp Llafur yn cael sedd ar y Pwyllgor Archwilio a hefyd y Pwyllgor Apeliadau. Gall y Cyngor benderfynu i roddir seddau hyn i Aelodau Digyswllt (newidiadau mewn melyn).

**9.0 Pwyllgorau Eraill**

9.1 Mae'r gostyngiad amlwg yma'n ymwneud â'r Grŵp Llafur yn colli un sedd ar yr Is-Bwyllgor Indemniadau. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Arweinyddion Grwpiau. Yn amodol bod y Cyngor yn cytuno, ac yn unol â'r confensiwn lleol byddai'r sedd yn cael ei dyrannu i Aelod Digyswllt (wedi ei farcio'n oren).

10.0 **Argymhellion:-**

(i) cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrennir i bob un o'r grwpiau dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a nifer y seddau a roddir trwy arfer a threfn i'r Aelodau nad yw'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt fel sydd wedi ei nodi yn y matrics;

(ii) yn unol ag argymhelliad (i) uchod, bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion Grwpiau, y grym i benderfynu ar ddyraniad y seddau i Aelodau Digyswllt yn sgil y newidiadau hyn a rhoi gwybod i'r Rheolydd Gwasanaethau Pwyllgor am ei benderfyniad;

(iii) gofyn i Arweinydd y Grŵp Llafur roi manylion am Aelodaeth Pwyllgorau i'r Rheolydd Gwasanaethau Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd yn unol â'r newidiadau a amlygir yn yr adroddiad hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Democrataidd**
**26/11/13**

| **TACHWEDD 2013** |
|---|
| yn dilyn ymddiswyddiad |
| **NOVEMBER 2013** |
| following resignation |

| **Balans ar y Cyngor Sir<br>Balance on County Council** | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 12 |
| Llafur<br>Labour | 2 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | 12 |
| Heb Ymaelodi<br>Unaffiliated | 4 |
| | 30 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 10 | 10 | 20 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *4* / 4 | *4* / 4 | *8* / 8 |
| Llafur<br>Labour | *0.666667* / 0 | *0.66667* / 1 | *1.33333* / 1 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *4* / 4 | *4* / 4 | *8* / 8 |
| Heb Ymaelodi<br>Unaffiliated | *1.333333* / 2 | *1.33333* / 1 | *2.66667* / 3 |
| | *10* / 10 | *10* / 10 | *20* / 20 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaet* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn | |
| Bottom right, normal = whole number suggestion | |

| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | LLED-FARNWROL QUASI-JUDICIAL | | | | | LLED-FARNWROL QUASI-JUDICIAL | | | PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Archwilio<br>Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing | CYSAG<br>SACRE | Anghenion Addysgol Arbennig<br>Special Educational Needs | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | **CYFANSWM LLAWN**<br>**GRAND TOTAL** |
| Aelodaeth<br>Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 | 6 | 7 | 7 | 6 | 3 | 5 | 100 | 120 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *4.4* / 5 | *3.2* / 3 | *4* / 4 | *4* / 4 | *1.2* / 1 | *1.2* / 1 | *4* / 4 | *4.4* / 5 | *2.4* / 2 | *2.8* / 3 | *2.8* / 3 | *2.4* / 2 | *1.2* / 1 | *2* / 2 | *40* / 40 | *48* / 48 |
| Llafur<br>Labour | *0.73333* / 1 | *0.53333* / 0 | *0.66667* / 1 | *0.66667* / 1 | *0.2* / 1 | *0.2* / 0 | *0.666667* / 0 | *0.733333* / 1 | *0.4* / 0 | *0.46667* / 0 | *0.46667* / 1 | *0.4* / 1 | *0.2* / 0 | *0.333333* / 0 | *6.666667* / 7 | *8* / 8 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *4.4* / 5 | *3.2* / 3 | *4* / 4 | *4* / 4 | *1.2* / 1 | *1.2* / 1 | *4* / 4 | *4.4* / 5 | *2.4* / 2 | *2.8* / 3 | *2.8* / 3 | *2.4* / 2 | *1.2* / 1 | *2* / 2 | *40* / 40 | *48* / 48 |
| Heb Ymaelodi<br>Unaffiliated | *1.46667* / 0 | *1.06667* / 2 | *1.33333* / 1 | *1.33333* / 1 | *0.4* / 0 | *0.4* / 1 | *1.333333* / 2 | *1.466667* / 0 | *0.8* / 2 | *0.93333* / 1 | *0.93333* / 0 | *0.8* / 1 | *0.4* / 1 | *0.666667* / 1 | *13.33333* / 13 | *16* / 16 |
| | *11* / 11 | *8* / 8 | *10* / 10 | *10* / 10 | *3* / 3 | *3* / 3 | *10* / 10 | *11* / 11 | *6* / 6 | *7* / 7 | *7* / 7 | *6* / 6 | *3* / 3 | *5* / 5 | *100* / 100 | *120* / 120 |